YSGOL GYMRAEG GWENFFRWD     <u>TYMOR YR HAF 2016</u>

Llythyr 6 / Letter 6     24/05/2016

Annwyl Rieni / Dear Parents;

**Gobeithio y cewch benwythnos braf dros Wyl y Banc ac ar hyd yr wythnos nesaf….. a hynny ar faes EISTEDDFOD YR URDD YN FFLINT!!**
**Dymunwn yn dda i griw FFLAMAU FFLINT a fydd yn canu yn seremoni agoriadol yr Eisteddfod nos Sul- ac yna'n perfformio'r Sioe Gerdd Nos Fawrth Mai 31ain- gobeithio eich bod wedi archebu eich tocynnau!!**
**Pob dymuniad da i blant Gwenffrwd a fydd yn cystadlu- Lois Roberts a Gwenllian Closs Griffiths (Bl.2) ; Ioan Jones (Bl.6) a Joseph Jones (Bl.5) yn ogystal a'r partion Cerdd Dant, Parti Unsain a'r Grwp Cerddoriaeth Creadigol.**
**Cafwyd dechrau gwych i'r Eisteddfod wrth i 4 disgybl o Ysgol Gwenffrwd lwyddo yn yr adran Celf a Chrefft-**

| | |
|---|---|
| **Megan Griffiths Bl.3** | **1af-Creadigol 3D Tecstiliau** |
| **Bethan Davies Bl.5** | **1af-Gwau/crosio** |
| **Ela Closs Sharp Bl.5** | **3ydd-Penwisg** |
| **Gwenllian Closs Griffiths** | **3ydd-Print monocrom** |

**LLONGYFARCHIADAU MAWR i chi- a chofiwch, bawb- ewch i weld y gwaith ym Mhabell Celf a Chrefft ar faes yr Eisteddfod.**

I hope that you will have a lovely half-term break- PLEASE make every effort to visit the URDD NATIONAL EISTEDDFOD which is held this year at Flint. The Eisteddfod field is now ready for you- and there are SO MANY THINGS for children to do when families visit!
**We wish the cast of FFLAMAU FFLINT well as they prepare for the Opening Ceremony on Sunday evening- and for their Musical Theatre performance Tuesday night in the Eisteddfod pavillion- I hope that you've all purchased your tickets!!**
**All the best to all Gwenffrwd pupils competing next week- Lois Roberts and Gwenllian Closs Griffiths (Bl.2) ; Ioan Jones (Bl.6) & Joseph Jones (Bl.5) as well as the Parti Cerdd Dant; Unison Singing group and the Creative Music Group- POB LWC!!**
**The Eisteddfod has certainly started well for Ysgol Gwenffrwd- as we have 4 pupils who have been successful in the Arts and Craft section-**

| | |
|---|---|
| **Megan Griffiths Bl.3** | **1af-1st-Textiles (Creative 3D)** |
| **Bethan Davies Bl.5** | **1af-1st-Knitting/crochet** |
| **Ela Closs Sharp Bl.5** | **3ydd-3rd-Penwisg** |
| **Gwenllian Closs Griffiths** | **3ydd-3rd-Monocrome print (photography)** |

**We are so proud of your achievement- and hope everybody will go to see your work in the Art and Craft section on the Eisteddfod field next week. CONGRATULATIONS!!**

LLYWODRAETHWYR YN DIOLCH I'R STAFF : **Hoffai'r Llywodraethwyr ddiolch yn fawr i staff yr ysgol am eu hymroddiad unwaith eto'r tymor hwn- yn enwedig yng nghanol prysurdeb paratoi at yr Urdd. Diolch i bawb a fu yn ymarferion Fflamau Fflint; ac i'r staff a fu'n hyfforddi'r disgyblion ar gyfer cystadlu. Diolch hefyd i'r tim cyfan a gydweithiodd i arwain yr ysgol yn llwyddiannus drwy'r WOBR EFYDD (Y Siarter Iaith)- ac i'r staff a fydd yn arwain ein hysgol mewn asesiad Buddsoddwyr mewn Teuluoedd ddiwedd mis Mehefin. Mae'r Llywodraethwyr yn gwerthfawrogi eich gwaith caled. DIOLCH.**

**GOVERNORS GIVING HEARTFELT THANKS TO THE TEAM OF STAFF: T**he Governing Body wish to thank Ysgol Gwenffrwd's staff for their dedication once again this term- especially during the busy preparations for the Urdd National Eisteddfod. Thanks to all who have given their time during the evenings and on Sundays to supervise the Fflamau Fflint practises; to the staff who have coached the pupils in preparation for competitions next week – it is really appreciated by Governors- and, I'm sure, by parents.
Thanks also to the whole team of staff who lead our school through a successful BRONZE Welsh Language Charter award- and to the team working towards our Investors in Families assessment at the end of June.

Diolch yn fawr.

*Howard Jones (Cadeirydd/ Chair)*

**OEDFA SUL YR URDD: SUNDAY MORNING WORSHIP@ URDD EISTEDDFOD FIELD**

Croeso i bawb i Bafiliwn yr Eisteddfod am 9yb Sul 29/5 i gymeryd rhan yn yr oedfa arbennig hon. **A warm welcome to all- to join in the Sunday morning worship in the Eisteddfod Pavillion, - this Sunday morning at 9am. This service will be televised- so please be punctual!!**

| **LLONGYFARCHIADAU** | **CONGRATULATIONS** |
|---|---|
| 1. Pob dymuniad da i Miss Bethan Rowlands a fydd yn priodi Mr Hywel Edwrds ddydd Llun nesaf 30/5- dymunwn pob bendith ichwi<br>*Os ydych yn dymuno anfon rhodd at anrheg briodas- anfonwn mewn amlen i'r ysgol yfory o.g.y.dda. Diolch. | 1. Our best wishes go to Miss Bethan Rowlands as she will marry Mr Hywel Edwards next Monday 30/5. We hope that you have a fabulous day!<br>*If you wish to contribute towards a wedding gift-please send monies in a labelled envelope. Diolch |
| 2. Llongyfarchiadau i Mrs Gemma Rush sydd wedi derbyn swydd Gofalydd mewn cartref gofal- dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd- bydd colled mawr ar eich hol yng Ngwenffrwd! Bydd Mrs Rush yn gadael ddydd Gwener Mehefin 10fed.- felly os ydych am anfon cyfraniad at anrheg ffarwel- anfonwch mewn amlen wedi ei labelu- at sylw Mrs S Roberts (swyddfa). Diolch. | 2. Congratulations go to Mrs Gemma Rush- as she has decided to change career paths- and work as a Carer in a Nursing establishment. Mrs Rush will be missed at Gwenffrwd. She will leave on June 10th- therefore if you wish to send a contribution towards a farewell gift- please send in a labelled envelope FAO Mrs S.Roberts (school office) Diolch. |

| |
|---|
| **DIWRNOD OLAF YR HANNER TYMOR (diwrnod di-wisg ysgol y GRhA)**<br>**Gwener 27/05/2016 Friday**<br>**LAST DAY OF THIS HALF TERM (PTA's 'own-clothes' day)** |
| **DIWRNOD CYNTAF YN OL YN R'YSGOL- I BAWB !**<br>**Llun 06/06/2016 Monday**<br>**FIRST DAY BACK TO SCHOOL- STAFF AND PUPILS** |

**Yn gywir/ Sincerely**

**M. Iola Owen (Pennaeth)**

ON/PS
Rhaghysbysiad: Bydd cyngerdd bychan gan y plant sydd yn derbyn gwersi cerdd peripatetig- ar gyfer eu rhieni- ddydd Mercher Mehefin 15fed am 1.30yp
A forward date for your diaries- the pupils receiving peripatetic music lessons will perform for their parents on Wed. June 15$^{th}$ at 1.30pm.